Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cynllun Gweithredu ar Reoli Hamdden ac Ymwelwyr yn Gynaliadwy

Ein camau gweithredu i gyflawni Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-2024

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

www.arfordirpenfro.cymru

Cynllun Gweithredu ar Reoli Hamdden ac Ymwelwyr yn Gynaliadwy

Dylid darllen y cynllun gweithredu hwn ar y cyd â Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2020-2024. Mae'r cynllun yn tynnu sylw at y camau blaenoriaeth i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n ymwneud â thwristiaeth a hamdden cynaliadwy hyd at 2024. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys camau gweithredu y mae cyllid eisoes wedi'i gymeradwyo ar eu cyfer. Hefyd nodir camau gweithredu y byddai o bosibl angen adnoddau ar eu cyfer. Lle mae hyn yn wir, byddai unrhyw benderfyniad ynglŷn ag adnoddau yn cael ei wneud yn unol â gweithdrefnau safonol yr Awdurdod.

Ym mhob tabl, ategir y golofn statws gan sylwadau manylach ar y gweithgareddau a wnaed yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Dylid edrych ar hyn ar y cyd â'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau cyfredol.

Cafodd y *Cynllun Gweithredu ar Reoli Hamdden ac Ymwelwyr yn Gynaliadwy* hwn ei ddrafftio gyda mewnbwn gan staff ar draws yr Awdurdod gan gynnwys Cyfarwyddyd y Parc, y Tîm Darganfod, y Tîm Parcmyn, y Tîm Cyfathrebu, a'r Tîm Rheoli Cefn Gwlad. Ymgynghorwyd ar y cynllun gweithredu hwn â'r uwch reolwyr a'r arweinyddion tîm. Hefyd ymgynghorwyd â Croeso Cymru, Grŵp Cynllunio Hamdden Awyr Agored Parc Cenedlaethol Penfro, a'r gweithgor Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Benfro - mae'r grwpiau hyn yn cynnwys Croeso Sir Benfro, Fforwm Arfordirol Sir Benfro, Cyngor Sir Penfro, PLANED, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a Phartneriaeth Natur Sir Benfro. Mae'r cynllun gweithredu yn clustnodi gwaith y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn bwriadu arwain arno. Fodd bynnag, mae cyflawni'r gwaith yn dibynnu ar gydweithio ag ystod o bartneriaid ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

a) Maes Blaenoriaeth: Twristiaeth a Hamdden Adfywiol / Cynaliadwy

Yn cyfrannu at bolisïau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'u meysydd effaith cysylltiedig: W1: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd hamdden awyr agored cynaliadwy i bawb; W2: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd dysgu sy'n ysbrydoli yn yr awyr agored a datblygiad personol i bawb; N1: Cyfrannu at economi carbon isel i Gymru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

Yn cyfrannu at Amcanion Llesiant canlynol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol: Ffyniant (Ffrydiau Gwaith: Rheoli Twristiaeth a Hamdden yn Gynaliadwy, Hyrwyddo ac Ymgysylltu, Cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Ased Twristiaeth), Cydnerthu (Ffrwd Gwaith: Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd), Amcanion Byd-eang (Ffrwd Gwaith: Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd), Iechyd a Lles (Ffrydiau Gwaith: Hyrwyddo Buddion Iechyd y Parc).

1. Twristiaeth a Hamdden Cynaliadwy - Rheoli					
Diben: Sicrhau bod gweithgareddau twristiaeth a hamdden yn cymryd rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol i ystyriaeth ac nad yw'r gweithgareddau hynny yn niweidiol i'r rhinweddau arbennig.					
Canlyniad: Y partneriaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth ac adnoddau er budd y Parc Cenedlaethol.					
Gweithredu / Menter	**Amserlen**	**Arweinydd**	**Adnoddau**	**Statws**	**Gweithgaredd 2020/21**
Parhaodd y Parcmyn a'r Parcmyn Haf i gysylltu ag ymwelwyr, cymunedau a pherchnogion tir yn ystod tymor yr haf. (Gan gynnwys datblygu a gweithredu system o adrodd am ddigwyddiadau ar safleoedd, Llwybr yr Arfordir a hawliau tramwy mewndirol.)	Haf 2021 ac adolygiad yn mynd rhagddo.	Arweinydd y Tîm Parcmyn.	Y Gwasanaeth Parcmyn. Y Gwasanaeth Wardeniaid.	Ar y gweill.	Yn 2020/21 sefydlodd Cyngor Sir Penfro ganolfan rheoli digwyddiadau i ddelio â'r materion oedd yn codi oherwydd y nifer uchel o ymwelwyr, ac roedd y Parcmyn wrthi'n patrolio ac yn bwydo gwybodaeth am faterion i'r Ganolfan hon ond hefyd yn ymateb i bryderon a adroddwyd gan y Ganolfan megis gwersylla dros nos, taflu sbwriel ac ati.
Ymateb i'r argymhellion a'r modelau a glustnodwyd o'r ymchwil allanol ar gynaliadwyedd yr oedd yr Awdurdod wedi comisiynu Prifysgol Abertawe i'w gynnal.	Disgwylir adroddiad yn hydref 2021.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth. Arweinydd y Tîm Parcmyn.	Y tu ôl.	Mae'r cyfyngiadau COVID-19 a'r pwysau ychwanegol ar addysg uwch wedi dal y prosiect yn ôl.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Cydweithredu â Phartneriaeth Natur Sir Benfro i gefnogi ystod o fentrau yn y Parc Cenedlaethol sy'n cefnogi adfer natur a chadwraeth.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Swyddog Bioamrywiaeth.	Tîm Parcmyn. Swyddog Gwirfoddoli. Swyddog Archaeoleg. Swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru. Swyddog Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.	Parhaus	Mae APCAP yn gwneud cyfraniad ariannol i Bartneriaeth Natur Sir Benfro. Ymhlith y prosiectau sy'n cael eu dewis mae creu coetir gyda'r archaeolegydd Cymunedol; prosiect ansawdd dŵr glân CLEAN Grŵp Amgylcheddol Meithrin Gwell Cysylltiadau ac Ardal Trefdraeth; Dinas gyfeillgar i wenyn yn Nhyddewi; prosiect i gryfhau cydnerthedd ecolegol Ardal Cadwraeth Arbennig Tir Comin Gogledd Orllewin Sir Benfro ger Tyddewi.
Cydweithredu: Cefnogi'r bencampwriaeth Rhwyfo a Sbrintiau Traeth y Byd yn Saundersfoot (2021/22) drwy'r Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth a gyflogir fel eu rheolwr cynaliadwyedd. Datblygu system gynaliadwy o reoli digwyddiadau i safon ISO 20121: 2012.	Digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer Hydref 2022.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Ar y gweill	Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cynaliadwy wedi'u drafftio yn barod ar gyfer lansiad '500 diwrnod' ar 25 Mai 2021.
Cydweithredu: Cydlynu'r adolygiad parhaus o Reoli Pwysau Ymwelwyr a Phrofiadau Ymwelwyr gyda phartneriaid allanol (cefnogi'r gwaith o reoli safleoedd problemus yn y Parc a materion hamdden parhaus a newydd).	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth. Arweinydd y Tîm Parcmyn. Arweinydd y Tîm Mynediad.	Ar y gweill	Dogfen 2021 wedi'i chwblhau fel dogfen gyfeirio.
Cydweithredu: Parhau i gymryd rhan yn fforwm Diogelwch Dŵr Sir Benfro, gan gynnwys cefnogi'r fforwm drwy goladu a mapio digwyddiadau ar yr arfordir a'r blaendraeth.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Arweinydd y Tîm Parcmyn.	Arweinydd y Tîm Parcmyn.	Parhaus	Ymgysylltu'n barhaus â'r Fforwm Diogelwch Dŵr, gan gynnwys cofnodi digwyddiadau ar y blaendraeth. Bu'r Rheolwr Parcmyn yn cadeirio'r Grŵp Cyswllt Traethau Sir Benfro fis Mawrth 2021.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Cydweithredu: Bydd y Parcmyn, gan gynnwys Parcmon Castellmartin, yn parhau i gysylltu â grwpiau hamdden a Fforwm Arfordirol Sir Benfro, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Siarter Awyr Agored Sir Benfro.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Arweinydd y Tîm Parcmyn.	Y Gwasanaeth Parcmyn.	Parhaus	Aelodau Grŵp Cynllun Hamdden Sir Benfro, Grŵp Rheoli Hamdden Dyfrffordd Aberdaugleddau, a Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro. Cynhaliwyd yr ymgynghori â Grŵp Hamdden a Mynediad Maes Tanio Castellmartin drwy'r e-bost eleni. Cynhaliwyd a chadeiriwyd cyfarfod blynyddol y Grŵp Cyswllt Dringo Clogwyni Sir Benfro. Digwyddiad rhithiol treftadaeth arfordirol wedi'i gynnal gan yr archaeolegydd Cymunedol gyda Fforwm Arfordirol Sir Benfro Mawrth 2021.
Cydweithredu: Parhau i weithio gydag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill ar ddatblygu Dangosyddion Twristiaeth Gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar ystyriaethau sy'n ymwneud â thwristiaeth adfywiol a chlustnodi gweithredoedd drwy gydweithredu a rhannu gwybodaeth ac adnoddau ar dwristiaeth gynaliadwy.	2021-2022	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth. Rheolwr Parcmyn. Swyddog Polisi y CDLl. Y Tîm Cyfathrebu.	Ar y gweill	Cafwyd trafodaethau gyda Pharciau Cenedlaethol Cymru a Pharciau Cenedlaethol y DU ar y pwnc hwn gyda'r nod o glustnodi Dangosyddion Perfformiad Allweddol erbyn 2022.

2. Twristiaeth a Hamdden Cynaliadwy - Hyrwyddo ac Ymgysylltu					
Diben: Sicrhau bod rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael eu hystyried yng ngweithgareddau hyrwyddo ac ymgysylltu yr Awdurdod ac eraill.					
Canlyniad: Staff y Parc Cenedlaethol a phartneriaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau dulliau a negeseuon clir a chyson sy'n hyrwyddo lles y parc cenedlaethol.					
Gweithredu / Menter	**Amserlen**	**Arweinydd**	**Adnoddau**	**Statws**	**Gweithgaredd 2020/21**
Cyflawni Strategaeth yr Awdurdod "Cyfathrebu allan o COVID" ac ymgyrchoedd negeseua a digidol i gefnogi rheoli cyrchfannau.	2021-2022	Y Rheolwr Cyfathrebu.	Y Tîm Cyfathrebu a Marchnata. Y Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth. Cyllid SLSP 2021/22: Twristiaeth Gynaliadwy - Arwyddion Gwybodaeth a Diogelwch.	Ar y gweill	Cafodd y Strategaeth Cyfathrebu allan o COVID ei datblygu yn 2020/21, a cychwynnwyd y gweithgareddau cefnogi.
Ailsefydlu Oriel y Parc fel canolfan Ddarganfod y Parc, drwy gyflawni ei gynllun dehongli.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024).	Rheolwr y Ganolfan.	Rheolwr OyP. Y Tîm Dehongli.	Ar y gweill	Wedi'i effeithio gan gyfyngiadau COVID-19 a achosodd i'r ganolfan gau am gyfnodau penodol o'r flwyddyn. Mae'r tîm wardeniaid wedi gwneud ardaloedd gwella i ardal y Coetir.
Sefydlu Pwyntiau Darganfod Gwybodaeth ar safleoedd ledled y Parc Cenedlaethol.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024).	Y Swyddog Dehongli.	Y Tîm Dehongli. Y Gwasanaeth Wardeniaid. Cyllid SLSP 2021/22: Twristiaeth Gynaliadwy – Pwyntiau Darganfod.	Ar y gweill	Mae paneli peilot Pwyntiau Darganfod wedi'u cynhyrchu a'u gosod mewn 7 lleoliad busnes yn y Parc. Sicrhawyd cyllid SLSP ar gyfer 2021/22. 30+ o leoliadau newydd i gael cynnig paneli arddull newydd gyda mapiau gwybodaeth a negeseuon yr APC a defnyddio codau QR i gysylltu â thaflenni eraill yr APC.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Ymgysylltu ag Ymwelwyr a'r Cymunedau Lleol drwy Coast to Coast a gwybodaeth ar-lein drwy ein gwefan.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Rheolwr Cyfathrebu.	Y Tîm Cyfathrebu a Marchnata. Y Tîm Dehongli.	Ar y gweill	Gwefan newydd APCAP wedi'i lansio yn 2021/22, gyda mwy o swyddogaethau.
Cydweithredu: Cydweithio â Croeso Sir Benfro ar weithredu'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau a rheoli a hyrwyddo cyrchfannau yn ehangach.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth. Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata.	Ar y gweill	Sefydlwyd Croeso Sir Benfro yn 2020/21 ac mae Aelod o APCAP yn cynrychioli'r Awdurdod ar y Bwrdd. Yn cymryd rhan yn rhaglenni twristiaeth Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â Llwybr Arfordir Cymru a Ffordd Cymru.
Timau Croesawu Ymwelwyr: Datblygu rhaglen ar gyfer croesawu ymwelwyr, gan adeiladu ar fenter Cyngor Sir Penfro yn 2020 i ymgysylltu ag ymwelwyr ac ychwanegu gwerth at eu profiad wrth ymweld â Sir Benfro.	2021	Arweinydd y Tîm Darganfod.	Arweinydd y Tîm Darganfod. Cydlynydd Gweithgareddau a Digwyddiadau.	Ar y gweill	Menter 2021 wedi'i chyflawni mewn partneriaeth â CSP, Croeso Sir Benfro a PLANED. Gwirfoddolwyr wedi'u sicrhau a hyfforddiant ar y gweill. Timau Croesawu Ymwelwyr i'w lleoli mewn llefydd o gwmpas yr arfordir a hefyd yn y Canolfannau Ymwelwyr.
Prosiect Partneriaeth - Prosiect Partneriaeth Llwybrau Celtaidd.	2021 – cyllid Llwybrau Celtaidd yn dod i ben.	Arweinydd y Tîm Darganfod.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth. Arweinydd y Tîm Darganfod. Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata.	Ar y gweill	WEFO wedi cymeradwyo Cais Cam 2. Hysbysebion Llwybrau Celtaidd wedi'u lansio. 'Porthol pecyn brandio' i sefydliadau ddefnyddio deunydd marchnata pwrpasol y Llwybr Celtaidd am ddim.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Prosiect Partneriaeth - Prosiect Partneriaeth Cysylltiadau Hynafol.	2021 – cyllid Llwybrau Celtaidd yn dod i ben.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth. Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata. Y Swyddog Archaeoleg. Rheolwr Prosiectau Adeiladu – Gwelliannau Mynediad i Ffynnon Santes Non.	Parhaus	WEFO wedi cymeradwyo Cais Cam 2. Nifer o dendrau wedi'u hysbysebu drwy GwerthwchiGymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiect. Oherwydd COVID-19 cafodd y gweithgareddau sy'n ymwneud ag archaeoleg eu canslo yn 2020-21 - arolygon geoffisegol, gwaith cloddio yng Nghapel Sant Padrig, ac ymgysylltu â'r gymuned. Gwelliannau Mynediad i Santes Non - Gwaith ar y safle i ddechrau mis Mai 2021.

3. Cynnal Hawliau Tramwy fel ased twristiaeth allweddol a rheoli'r llwybrau mewn modd cynaliadwy

Diben: Sicrhau bod yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn hygyrch ac yn galluogi'r cyhoedd i gysylltu â'r Parc Cenedlaethol.

Canlyniad: Rhwydwaith o Hawliau Tramwy Cyhoeddus o ansawdd da a'r cyhoedd yn ymwybodol iawn o'u defnydd priodol.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Rhaglen barhaus o gyflawni gwaith a thorri tymhorol ar lwybr yr arfordir a hawliau tramwy mewndirol cyhoeddus.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Rheolwyr Cefn Gwlad.	Tîm Rheoli Cefn Gwlad a'r Tîm Hawliau Tramwy a Mynediad.	Ar y gweill.	Dechreuodd ganol mis Mai.
Gweithgareddau i ymateb a chynyddu cydnerthedd i erydiad arfordirol a chylchoedd o dywydd gwael (Rhaglen Adweithiol ac a Gynlluniwyd).	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Rheolwyr Cefn Gwlad.	Tîm Rheoli Cefn Gwlad a'r Tîm Hawliau Tramwy a Mynediad.	Parhaus	Newid llinell Llwybr yr Arfordir yn Westmoor, Porthstinan a Sandy Haven.
Prosiect Parc Digidol – gwella'r gwaith o reoli Llwybr yr Arfordir a'r Rhwydwaith Mewndirol o Hawliau Tramwy.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024).	Swyddog Mynediad.	Tîm Rheoli Cefn Gwlad. Tîm Mynediad.	Parhaus	Datblygu System Rheoli Swyddi a System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad.
Gweithredu / Menter	**Amserlen**	**Arweinydd**	**Adnoddau**	**Statws**	**Gweithgaredd 2020/21**
Datblygu cysylltiadau newydd rhwng llwybrau troed a theithiau cerdded cylchol	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024).	Swyddog Mynediad.	Tîm Rheoli Cefn Gwlad. Tîm Hawliau Tramwy	Ar y gweill	Cytundebau Rheoli wedi'u cwblhau a'r gwaith ar y gweill o baratoi'r tir.

(e.e. cyswllt llwybr troed newydd rhwng Trefdraeth a Nanhyfer / Gwaith Gwella i ffurfio taith gerdded gylchol o Landudoch drwy Drewyddel a Thraeth Poppit).			a Mynediad. Tîm Marchnata a Chyfathrebu.		
Prosiect Bioamrywiaeth: Ymestyn y Prosiect Pobl, Llwybrau a Pheillwyr i gefnogi Llwybr yr Arfordir ehangach a chymryd yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect i ddatblygu canllawiau i'r tîm Wardeniaid ar reoli Llwybr yr Arfordir a Hawliau Tramwy Cyhoeddus o safbwynt bioamrywiaeth.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024).	Swyddog Bioamrywiaeth.	Swyddog Bioamrywiaeth. Swyddog Prosiect Pobl, Llwybrau a Pheillwyr. Gwasanaeth Wardeniaid. Swyddog Cyllido.	Parhaus	Canllawiau ar reoli llwybr yr arfordir ar gyfer peillwyr wedi'u hysgrifennu gyda chynlluniau i gyfarwyddo tîm y wardeniaid cyn i'r tymor torri porfa yn yr haf ddechrau.
Cydweithredu: Parhau i gydweithredu â Chyngor Sir Penfro i gyflawni'r cynllun gwella hawliau tramwy, a hwyluso'r Fforwm Mynediad Lleol.	2020-2022	Swyddog Mynediad.	Tîm Mynediad. Tîm Rheoli Cefn Gwlad.	Parhaus	Dyrannwyd y grant Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, a chyfarfodydd Fforwm Mynediad Lleol yn parhau.
Cydweithredu: Ymgysylltu â Fforwm Deddfwriaeth Mynediad Llywodraeth Cymru.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Arweinydd y Tîm Mynediad.	Arweinydd y Tîm Mynediad.	Parhaus	Adroddiad wedi'i anfon at y Gweinidog.

4. Sicrhau mynediad priodol i safleoedd sy'n eiddo i'r Awdurdod ac a reolir ganddynt a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy					
Diben: Sicrhau bod yr asedau'n hygyrch ac yn galluogi'r cyhoedd i gysylltu â'r Parc Cenedlaethol.					
Canlyniad: Asedau o ansawdd da yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.					
Gweithredu / Menter	**Amserlen**	**Arweinydd**	**Adnoddau**	**Statws**	**Gweithgaredd 2020/21**
Cyflawni'r rhaglen waith yn barhaus.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024).	Rheolwyr Cefn Gwla.	Tîm Rheoli Cefn Gwlad. Swyddog Llwybr Cenedlaethol.	Parhaus	Yn cychwyn ganol mis Mai. Cynnal a chadw safleoedd yn rheolaidd i safon derbyniol a diogel - ystod o dasgau rheoli cefn gwlad parhaus megis gwaith coed, torri toriadau tân, rheoli torri llystyfiant, cefnogi mentrau cadwraeth.
Gweithgareddau i ymateb a bod yn fwy cydnerth i ddigwyddiadau tywydd.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024).	Rheolwyr Cefn Gwlad.	Tîm Rheoli Cefn Gwlad. Tîm Mynediad.	Parhaus	Gwirio ac archwilio eiddo, atgyweirio a disodli lle bo hynny'n briodol; rheoli cilio lle bo hynny'n briodol. Gosod

					arwyddion a thynnu arwyddion i lawr.
Cytuno ar fanylebau safonol ar gyfer gwaith atgyweirio ac addasu.	Cychwyn 2021 (i'w gadarnhau).	Rheolwyr Cefn Gwlad.	Tîm Rheoli Cefn Gwlad. Tîm Mynediad.	Parhaus	Rhaglen waith dros y gaeaf gan gynnwys atgyweirio'r dodrefn allanol ar y rhwydwaith o lwybrau troed; ac ati.
Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru.	2021	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr.	Rheolwyr Cefn Gwlad. Tîm Parcmyn. Tîm Darganfod.	Heb ddechrau	Bydd APCAP yn ceisio cyrchu Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru er mwyn helpu gyda'r anghenion am adnoddau ychwanegol i'r Awdurdod oherwydd y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a achosir gan y pandemig COVID-19.

5. Twristiaeth Gynaliadwy - Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd / agenda Datgarboneiddio					
Diben: Sicrhau bod ffabrig y Parc Cenedlaethol yn gallu addasu i'r argyfwng hinsawdd a bod y rhanddeiliaid yn yr economi ymwelwyr yn ymgysylltu ac yn cyflawni ar yr agenda datgarboneiddio.					
Canlyniad: Cynnig twristiaeth gydnerth wedi'i adeiladu ar egwyddorion di-garbon.					
Gweithredu / Menter	**Amserlen**	**Arweinydd**	**Adnoddau**	**Statws**	**Gweithgaredd 2020/21**
Cydweithredu: Gosod Rhwydwaith o fannau a hybiau Gwefru Cerbydau Trydan Cyflym a Chyflym Iawn ar draws Sir Benfro a'r Parc.	Chwefror - Awst 2021	Rheolwr Prosiect Adeiladu.	Rheolwr Prosiect Adeiladu – Cyllid SLSP. Derbyniwyd cyllid SLSP ar gyfer 2021/22.	Parhaus	Y gwaith yn parhau. Ebrill 2021 - Daeth y 4 man gwefru cerbydau trydan cyntaf (Cam 1) yn weithredol ac fe'u lleolwyd yn: • Maes Parcio Brewery Meadow, Saudersfoot • Maes Parcio Oriel y Parc • Ardal barcio Hoprannau Porth-gain • Maes Parcio Aber Llydan
Canolfannau'r Awdurdod yn parhau i ennill Gwobrau Allwedd Werdd ac yn gweithredu mentrau bioamrywiaeth, carbon a lleihau gwastraff ar eu safleoedd.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Rheolwyr Canolfannau.	Rheolwyr Canolfannau. Ffi yn gysylltiedig â Gwobr Allwedd Werdd.	CH- Parhaus Caeriw – Parhaus OyP - Parhaus	CH, ailddechrau'r cais i Allwedd Werdd unwaith y bydd gweithgareddau 'agor wedi COVID' wedi'u rheoli. Caeriw - Gwobr Allwedd Werdd wedi'i hennill, yn ymgeisio eto yn Ch1 2021/22.

					Oriel y Parc - Yn aros am gyswllt gan gynrychiolydd Allwedd Werdd o ran y broses ailymgeisio.
Cydweithredu: Cefnogaeth Ariannol Barhaus i'r Gwasanaeth Bysiau Arfordirol (drwy'r Bartneriaeth Lonydd Glas).	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Swyddog Polisi CDLl.	Swyddog Polisi CDLl.	Parhaus	Cyllideb mewn lle.
Cydweithredu: Pan fydd cyfleoedd yn codi byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid perthnasol i archwilio cyfleoedd i wella trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleoedd i gael trafnidiaeth fforddiadwy gynaliadwy yn y Parc.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Swyddog Polisi CDLl.	Swyddog Polisi CDLl. Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Ar y gweill	Cysylltiadau â Lonydd Glas Sir Benfro i'w gwneud.
Cydweithredu: Datblygu rhaglenni teithio ymarferol i hyrwyddo cerdded a beicio.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Swyddog Mynediad. Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Ar y gweill	Mae hyn hefyd yn cyd-fynd yn strategol â thrafnidiaeth gynaliadwy ehangach a chynllunio teithio ymarferol.

b) Maes Blaenoriaeth: Tirweddau i Bawb - Profiadau Cynhwysol

Yn cyfrannu at bolisïau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'u meysydd effaith cysylltiedig: W1: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd hamdden awyr agored cynaliadwy i bawb; W2: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd dysgu sy'n ysbrydoli yn yr awyr agored a datblygiad personol i bawb.

Yn cyfrannu at Amcanion Llesiant canlynol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol: Cydraddoldeb (Ffrwd Gwaith: Tirweddau i Bawb: Profiadau Cynhwysol a Chynhwysiant Cymdeithasol).

1. Tirweddau i Bawb - Profiadau Cynhwysol					
Diben: Sicrhau bod profiadau'r Parc Cenedlaethol yn gynhwysol ac yn cynnig cyfleoedd i bawb.					
Canlyniad: Y cynnyrch a'r gwasanaethau a gynigir yn gynhwysol ac yn cynnig profiadau i bawb ymgysylltu â rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.					
Gweithredu / Menter	**Amserlen**	**Arweinydd**	**Adnoddau**	**Statws**	**Gweithgaredd 2020/21**

Adolygu'r fenter Cadair Olwyn Traeth yng ngoleuni effaith COVID-19 ac edrych ar gyfleoedd i ddatblygu ein cynnig ymhellach, i gynnwys defnyddio ein treiciau mynydd a datblygu'r posibilrwydd o gael 'clwb symudedd'. Byddwn yn parhau i gysylltu â swyddog Mynediad Cyngor Sir Penfro fel rhan o'r gwaith hwn.	2021- 2022	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth. Swyddog Gwirfoddoli. Swyddog Dewch i Gerdded. Cyllid SLSP 2021/22 ar gyfer Sgwteri trydan pob tir yng Nghastell Henllys.	Ar y gweill.	Cyflawni gweithgareddau Cadair Olwyn Traeth a effeithiwyd gan COVID-19. Cydlynydd wedi'i gyflogi fis Mai 2021 am 6 mis. Y cynllun peilot ar gyfleoedd cerdded cynhwysol ('clwb symudedd') i'w dreialu hydref 2021 drwy ddefnyddio treiciau mynydd.
Gweithredu / Menter	**Amserlen**	**Arweinydd**	**Adnoddau**	**Statws**	**Gweithgaredd 2020/21**
Casglu adnoddau data a fideo i greu cynnig digidol ar gyfer teithiau cerdded hygyrch yn Sir Benfro gan arwain at ddarparu adnoddau ar-lein sy'n ymwneud â chyfleoedd hygyrch yn y Parc.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Tîm Mynediad a'r Swyddog Dewch i Gerdded.	Swyddog Dewch i Gerdded. Y Tîm Dehongli. Arweinydd y Tîm Darganfod. Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Ar y gweill	Yn cysylltu â'r Swyddog Dewch i Gerdded a phrosiect Gorllewin Cymru Cerdded er Lles, a'r Swyddog Gwirfoddoli.
Ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion yr ymchwil ar y cynllun Profiadau i Bawb.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Arweinydd y Tîm Darganfod. Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth. Ac eraill yn ôl gofynion y prosiectau.	Ar y gweill	Cynhaliwyd arolwg i lywio'r prosiect. Disgwylir adroddiad - haf 2021.
Cynnal ystod o brosiectau mynediad corfforol i hyrwyddo profiadau mwy cynhwysol yn y parc (megis creu taith gerdded gylchol mwy hygyrch o gwmpas y gors yn Freshwater East.)	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Arweinydd y Tîm Mynediad.	Arweinydd y Tîm Mynediad. Tîm Rheoli Cefn Gwlad. Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth. Cyllid SLSP 2021/22 : Twristiaeth	Ar y gweill	Taith Gerdded Gylchol yn Freshwater East i'w chwblhau yn hydref 2021, wedi'i oedi oherwydd COVID-19. Mynediad i safle Santes Non – y gwaith i ddechrau mis Mai 2021. Prosiect Mynediad i Gastell Caeriw: wedi'i oedi ac yn dal i

			Gynaliadwy - Llwybr Mynediad / Llwybr Bwrdd ym Maenorbŷr/ Traeth Poppit.		fod ar gamau cychwynnol y broses gynllunio. Sicrhawyd cyllid SLSP ar gyfer gwaith cyfalaf ar y Llwybr Mynediad / Llwybr Bwrdd ym Maenorbŷr / Traeth Poppit.
Cychwyn ar broses o archwilio'r potensial o ddatblygu gwell manyleb a threfn arolygu ar gyfer llwybrau mynediad hawdd.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024).	Arweinydd y Tîm Mynediad.	Arweinydd y Tîm Mynediad.Swyddog Dewch i Gerdded. Arweinydd y Tîm Rheoli Cefn Gwlad.	Ar y gweill	Wedi'i gynnwys yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021/22.

c) Maes Blaenoriaeth: Tirweddau i Bawb - Profiad a Phrofiadau Dysgu

Yn cyfrannu at bolisïau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'u meysydd effaith cysylltiedig: W1: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd hamdden awyr agored cynaliadwy i bawb; W2: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd dysgu sy'n ysbrydoli yn yr awyr agored a datblygiad personol i bawb; H1: Gwarchod a gwella tirweddau o ddiddordeb hanesyddol penodol, Ardaloedd Cadwraeth, henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig a'u lleoliadau; H2: Hyrwyddo'r Gymraeg a thafodieithoedd lleol, a dathlu diwylliant a chreadigrwydd sy'n gysylltiedig â'r dirwedd; L1: Gwarchod a gwella tirweddau a morweddau'r Parc Cenedlaethol; L2: Diogelu a gwella awyr dywyll y nos; E1: Diogelu a gwella ansawdd, maint a chysylltedd bioamrywiaeth ar raddfa addas.

Yn cyfrannu at Amcanion Llesiant canlynol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol: Diwylliant (Ffrydiau Gwaith: Ysbrydoliaeth a Phrofiadau ar Hanes, Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu â Chelf, Adeiladau Hanesyddol ac Archaeoleg Gymunedol, Hyrwyddo'r Gymraeg - Sgiliau, Cyfleoedd ac Ysbrydoliaeth), Amcanion Byd-eang (Ffrwd Gwaith: Rhinweddau Arbennig: Ysbrydoliaeth ac Addysg).

2. Rhinweddau a Threftadaeth Arbennig - Ysbrydoliaeth, Profiadau a Dysgu					
Diben: Sicrhau bod ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol a thrigolion y Parc yn cael cyfleoedd i gysylltu â'i dreftadaeth.					
Canlyniad: Cymunedau ac ymwelwyr yn ymgysylltu drwy raglen amrywiol a chynhwysol o weithgareddau a digwyddiadau.					
Gweithredu / Menter	**Amserlen**	**Arweinydd**	**Adnoddau**	**Statws**	
Cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau ar hanes, gweithgareddau a rhaglenni gweithdy yng Nghastell Henllys ac yng Nghaeriw.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Rheolwr y Ganolfan.	Y Tîm Dehongli. Rheolwr y Ganolfan. Swyddog Gweithgareddau a Digwyddiadau. Tîm Castell Henllys.	Ar y gweill.	Gweithgareddau a digwyddiadau wedi'u cynllunio drwy gydol 2021 yn unol â'r cyfyngiadau COVID-19.

Gweithgareddau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu deunydd dehongli yn yr ystafell arddangos yng Nghastell Caeriw.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024).	Rheolwr y Ganolfan.	Y Tîm Dehongli Rheolwr y Ganolfan. Swyddog Gweithgareddau a Digwyddiadau.	Ar y gweill	Prosiect ar y gweill, wedi'i oedi oherwydd cyfyngiadau COVID-19.
Gweithredu / Menter	**Amserlen**	**Arweinydd**	**Adnoddau**	**Statws**	
Datblygu cyfleoedd i Gastell Henllys ddod yn Hwb Iaith Gymraeg, gan helpu mwy o ymwelwyr i ymgysylltu â'r Gymraeg.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Rheolwr y Ganolfan.	Y Tîm Dehongli. Tîm Castell Henllys. Menter Iaith, Cylch Meithrin. Caffi Caban.	Ar y trywydd iawn	Wedi gallu cyflwyno'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau a'n gweithdai yn ddwyieithog. Rhoi lle i grŵp chwarae Cylch Meithrin. Anerchiadau ar hanes menywod Cymru yn Gymraeg i grwpiau lleol. Caffi i ailsefydlu Dished y Dysgwyr. Cydweithio â PLANED ar rwydweithio Twristiaeth y Preseli.
Datblygu ystod o ddeunydd digidol ac atodol ar-lein ar gyfer arddangosfeydd yn Oriel y Parc, i helpu mwy o bobl i ymgysylltu â'r cynnwys a'r themâu a arddangosir.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024).	Swyddog Cyfathrebu.	Tîm Cyfathrebu. Swyddog Dehongli. Rheolwr Canolfan OyP.	Ar y gweill	Dechreuodd y prosiect yn 2020-21 i sganio arteffactau archaeolegol yn ddigidol sy'n cael eu harddangos yn Oriel y Parc ar gyfer arddangosfeydd rhithiol.
Cydweithredu: Parhau i weithio gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru i guradu arddangosfeydd ar y cyd, gyda chymorth ein cytundeb CLG gyda'r Amgueddfa.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Swyddog Archaeoleg.	Rheolwr Canolfan OyP. Swyddog Dehongli. Cyllid NDLP SLSP 2021/22 ar gyfer Arddangosfa Deithiol Geiriau Diflanedig.	Ar y gweill	Dim ond am gyfnod cyfyngedig y llwyddodd yr Oriel i fod ar agor yn 2020/21. Gwnaed y gwaith paratoi gydag Amgueddfa Cymru ar gyfer arddangosfa Tir a Môr a'r arddangosfa Geiriau Diflanedig. Partneriaeth ag Oriel Glan yr Afon CSP.

					Cais llwyddiannus am grant SLSP y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig ar gyfer Arddangosfa Deithiol ar y Geiriau Diflanedig.
Gweithredu / Menter	**Amserlen**	**Arweinydd**	**Adnoddau**	**Statws**	
Cydweithredu: Cyflwyno diwrnod Archaeoleg Blynyddol ac ehangu ein cynnig o ddehongli archaeoleg yn ddigidol.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024).	Swyddog Archaeoleg.	Swyddog Archaeoleg. Cydlynydd Gweithgareddau a Digwyddiadau. Tîm Dehongli. Cydweithwyr PLANED.	Ar y gweill	Oherwydd COVID-19, cyflwynwyd y digwyddiad yn rhithiol fis Tachwedd 2020.
Cydweithredu: Parhau i weithio gyda phartneriaid i edrych ar gyfleoedd Awyr Dywyll yn y Parc, gan gynnwys cydgysylltu parhaus â'r Bartneriaeth Llygredd Golau Sir Benfro.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024).	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth.	Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth. Swyddog Gweithgareddau a Digwyddiadau. Rheolwyr y Canolfannau. Swyddog Archaeoleg.	Ar y gweill	Cais i IDA am archwilio Dynodiad Awyr Dywyll. Tri digwyddiad rhithiol wedi'u cynnal fis Ebrill 2021 i gyd-fynd ag wythnos Ryngwladol Awyr Dywyll. Mae cynnwys y ddau ddigwyddiad ar gael ar-lein.
Cyflawni rhaglen yr Awdurdod o hwyluso teithiau cerdded a digwyddiadau cyhoeddus eraill o gwmpas y Parc.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Swyddog Gweithgareddau a Digwyddiadau.	Swyddog Gweithgareddau a Digwyddiadau. Swyddog Archaeoleg. Swyddog Gwirfoddoli.	Ar y gweill	Cyfyngwyd y rhaglen gan COVID-19 yn ystod 2020/21. Cynhaliwyd 22 o grwpiau cyhoeddus, cymunedol a gwirfoddol gyda chyfanswm o 285 o gyfranogwyr - gan gynnwys Dewch i Gerdded a phrosiect Gorllewin Cymru Cerdded er Lles. Cyfyngwyd y rhaglen teithiau cerdded archaeoleg gan COVID-19. Cyflwynwyd digwyddiadau rhithiol archaeoleg gan gynnwys sesiwn ar-lein. Anerchiadau i

					gymdeithasau a grwpiau cymunedol. Cynhaliwyd y rhaglen o ddigwyddiadau 2021 yn unol â rheoliadau COVID-19 gan gynnwys teithiau cerdded tywys. Mae digwyddiadau pop-yp hefyd ar y gweill. Digwyddiadau rhithiol wedi'u treialu yn ystod yr wythnos Awyr Dywyll.
Gweithredu / Menter	**Amserlen**	**Arweinydd**	**Adnoddau**	**Statws**	
Cyflwyno cyfleoedd i ymwelwyr ymgysylltu ag arolwg bywyd gwyllt a threftadaeth neu weithgareddau cadwraeth gan gynnwys - glanhau traeth, cyflwyniadau o luniau arfordir newidiol.	Cyfnod y Cynllun Rheoli cyfredol (2020-2024) a thu hwnt.	Arweinydd y Tîm Parcmyn.	Y Gwasanaeth Parcmyn. Gwasanaeth Darganfod. Swyddog Archaeoleg.	Ar y gweill	Effeithiwyd ar weithgareddau yn 2020/21 oherwydd cyfyngiadau COVID-19. 367 o gyflwyniadau ffotograffau i'r prosiect Arfordir Newidiol. Hyfforddwyd 16 o wirfoddolwyr treftadaeth yn rhithiol. Dros 80 o ymweliadau â henebion gan wirfoddolwyr yn 2020-21.